Papur y Bwrdd

27 Mawrth 2015

Teitl y Papur	**Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014/15, Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015/19 a Chynllun Gweithredu**
Cyfeirnod y Papur:	**CNC B B 21.15**
Noddwr y Papur: **Paratowyd y Papur gan:**	**Ashleigh Dunn** **Derek Carpenter**

Pwrpas y Papur:	**Penderfyniad** • Ceisio cael cytundeb i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar gyfer Cydraddoldeb 2014/15 • Ceisio cael cytundeb i gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015/19 a'r Cynllun Gweithredu ategol
Argymhelliad:	• Cytuno ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb • Cytuno ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2015/19 a'r Cynllun Gweithredu ategol
Angen Penderfyniad:	Oes

Effaith: Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Rydym yn helpu pobl i ddeall manteision amgylchedd da ac yn mynd ati i hyrwyddo defnydd o adnoddau naturiol Cymru i bawb. Drwy barchu ein gweithlu, bydd pobl yn cyfrannu'n fwy effeithio at ofalu am ein hamgylchedd. **Effaith ar yr Economi**: Dylai annog defnydd o adnoddau naturiol Cymru, ar draws y boblogaeth amrywiol, gael effaith gadarnhaol ar yr economi. **Effaith ar y Gymuned**: Fel cyflogwr staff yng Nghymru, yn gweithio gyda phartneriaid a chymunedau drwy'r wlad, mae'n hanfodol bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gosod safonau uchel ym mhob agwedd ar y maes cydraddoldeb ac amrywiaeth. **Effaith ar Wybodaeth**: Yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb yw ail adroddiad CNC ar y maes hwn a bydd yn helpu pobl i ddeall y cynnydd a wnaed yn 2014/15. Drwy Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-19 byddwn yn

	casglu tystiolaeth i lywio ein huchelgeisiau ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y dyfodol ac i fonitro cynnydd.

Pwnc

1. Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb CNC a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2015/19 a'r Cynllun Gweithredu ategol, sydd i'w gyhoeddi yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Crynodeb

2. Rydym am fod yn esiampl o sefydliad gwasanaeth cyhoeddus sy'n parchu ein cwsmeriaid ac yn rhoi gofal rhagorol iddynt. Mae rhoi cyfle i bawb brofi ein gwasanaethau yn allweddol i'n llwyddiant. Rydym hefyd yn gofalu am ein staff ac yn cydnabod ein bod yn cael y gorau o bobl pan fyddant yn cael eu trin yn deg ac yn cael eu gadael i fod yn hwy eu hunain. Mae'r gred hon sy'n ein harwain yn adlewyrchu ein gwerthoedd a'n hymddygiad (Map ffordd) ac yn caniatáu i ni deithio tuag at lwyddiant.

3. Mae fersiwn drafft Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014/15 a fersiwn drafft y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015/19 a'r Cynllun Gweithredu ategol yn rhoi cyfeiriad clir i CNC gyflawni ein huchelgeisiau.

Cefndir

4. **Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb CNC 2014/15** (Atodiad 1)**:** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi nifer o lwyddiannau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlyniadau meincnodi o Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall Cymru lle mae CNC wedi codi 58 safle yn y rhestr o brif gyflogwyr staff lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

5. Sefydlwyd tri rhwydwaith staff newydd, sef y Grŵp Defnyddwyr a Gynorthwyir, sy'n canolbwyntio ar hygyrchedd systemau cyfrifiadurol a ffôn CNC, Rhwydwaith Ffydd CNC (Y Gymdeithas Gristnogol yw'r grŵp cyntaf i'w sefydlu) a Rhwydwaith y Bobl sy'n canolbwyntio ar faterion rhywedd.

6. Mae gan Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CNC fwy o ffocws erbyn hyn a chynrychiolaeth lawnach o'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol, Undebau Llafur, pob Cyfarwyddiaeth a rhwydweithiau staff.

7. Mae'r system Gyllid ac Adnoddau Dynol newydd, MyNRW, yn gyfle i ddatblygu gwybodaeth well i gefnogi gwelliannau ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd staff yn cael eu hannog i hunanddatgelu gwybodaeth am amrywiaeth, gyda sicrwydd am gyfrinachedd.

8. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015/19** (Atodiad 2)**:** Rhoddodd cyfarfod y Bwrdd[1] mis Hydref 2014 gymeradwyaeth i symud ymlaen gyda'r ymgynghoriad ar yr Amcanion Cydraddoldeb drafft.

9. Rhoddwyd yr Amcanion Cydraddoldeb drafft ar wefan CNC er mwyn cael sylwadau o 28 Hydref 2014 i 6 Ionawr 2015. Gwahoddwyd staff a'r cyhoedd i adolygu'r

[1] NRW B B 70.14 Llunio Cynllun Cydraddoleb Strategol (2015-19) i Cyfoeth Naturiol Cymru

amcanion ac i gyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad. Hysbyswyd y rhai a fynychodd ein digwyddiadau ymgysylltu yn yr haf am yr ymgynghoriad.

10. Er mai ychydig o ymateb a gafwyd, roeddynt yn ymatebion safonol. Mae'r rhain, ynghyd â'r adborth a gafwyd o'r digwyddiadau ymgysylltu, wedi helpu i lywio fersiwn drafft Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015/19 a'r Cynllun Gweithredu ategol. Mae'r amcanion drafft wedi'u mân olygu ers iddynt gael eu cyflwyno ddiwethaf i'r Bwrdd er mwyn rhoi mwy o ffocws ac eglurder iddynt.

11. Trafodwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft a'r Cynllun Gweithredu yng nghyfarfod Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar 14 Ionawr 2015 a chyfarfod y Tîm Gweithredu ar 3 Mawrth 2015.

12. Er mwyn cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb hyn, mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnwys nifer o dasgau allweddol, a meysydd cyfrifoldeb a cherrig milltir. Bydd perfformiad yn cael ei reoli drwy'r Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a bydd adroddiadau cyfnodol ar faterion allweddol yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd.

13. Dyma rai o'r meysydd allweddol y mae'r Cynllun Gweithredu yn eu cwmpasu:

    a. ymgysylltu parhaus â grwpiau nodweddion gwarchodedig fel bo CNC yn deall effaith ein gwaith ar gymunedau;
    b. ymgysylltu â staff a'u hyfforddi i annog diwylliant gweithio iach lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu;
    c. edrych ar bolisïau i sicrhau eu bod yn gynhwysol;
    d. deall sut y gall rheoli adnoddau naturiol sicrhau canlyniadau gwell i grwpiau nodweddion gwarchodedig.

Y Camau Nesaf

14. Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014/15 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2015/19 a'r Cynllun Gweithredu ategol y cytunir arnynt yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC a'u cyflwyno i'r Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Ar ôl ei gyhoeddi, bydd y Cynllun Gweithredu'n cael ei roi ar waith drwy Gynlluniau Cyflawni'r Cyfarwyddiaethau er mwyn ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith. Bydd y Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn llywio'r gwaith, yn adolygu cynnydd yn rheolaidd ac yn adrodd mewn Adroddiadau Blynyddol ar Gydraddoldeb yn y dyfodol.

Risgiau

15. Mae cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Cynllun Gweithredu ategol yn galluogi CNC i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol. Byddai methu gwneud hyn yn cyflwyno peryglon sylweddol i'r sefydliad, o ran gofynion cyfreithiol, llywodraethu ac enw da.

Goblygiadau Ariannol

16. Mae cyllideb wedi'i phennu ar gyfer 2015/16 i gefnogi'r nifer cynyddol o rwydweithiau staff ac i feincnodi CNC yn erbyn sefydliadau tebyg eraill.

Cyfathrebu

17. Ar ôl eu cymeradwyo, bydd yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014/15 a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015/19 a'n Cynllun Gweithredu ategol yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Bydd y rhai sydd wedi cyfrannu yn cael eu hysbysu am y cyhoeddiadau hyn. Byddwn hefyd yn cynhyrchu fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu.

18. Yn fewnol, byddwn yn defnyddio cyfryngau gwahanol yn cynnwys dull amlygu'r fewnrwyd, Yammer a diweddariadau rheoli. Bydd rheolwyr cyfleusterau sy'n ymdrin â'r cyhoedd yn derbyn copi personol ac yn cael cyfle i gyfarfod yr Uwch Gynghorydd Cydraddoldeb i drafod y gwaith o weithredu.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

19. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

Mynegai Atodiadau

1. Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014 - 2015
2. Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015 – 2019 a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb
3. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb Strategol